



## Amcan Llesiant 13

Amgylchedd Iach a Diogel - Gwella seilwaith a chysylltedd y priffyrdd a thrafnidiaeth

### Sut y byddwn yn gwneud hyn? Ein cynllun gweithredu manwl i gyflawni'r amcan hwn

(Mae'r uwcholeuo lliw lemwn yn golygu nad hwn yw prif amcan y Cam neu'r Mesur)

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/ Targed
<b>A</b>	<b>Byddwn yn datblygu'r seilwaith priffyrdd i gyflawni blaenoriaethau ein Cynllun Adfywio</b>	
<b>1</b>	Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn cysylltiadau seilwaith trafndiaeth strategol er mwyn cefnogi datblygu economaidd. a. Dal ati i adeiladu Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin. b. Byddwn yn cysylltu'r datblygiadau sydd ynghlwm wrth Gam 2 o Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands. c. Dechrau ar y gwaith o wella'r seilwaith priffyrdd yn Rhydaman er mwyn gwella llif y traffig a lleihau tagfeydd. <i>MF5-2 a MF5-3</i>	Mawrth 2019
<b>2</b>	Byddwn yn sefydlu Sir Gaerfyrddin fel Canolbwynt Beicio Cymru drwy ddarparu prosiectau allweddol megis Llwybr Beicio Dyffryn Tywi. <i>MF5-1</i>	Mawrth 2019
<b>3</b>	Byddwn yn gweithredu'r Strategaeth Feicio ar gyfer Sir Gaerfyrddin a fydd yn canolbwyntio ar 5 thema strategol allweddol. 1 - Addysgu, Datblygu a Hyfforddiant; 2-Seilwaith a Chyfleusterau; 3-Marchnata a Brandio; 4-Twristiaeth a 5-Digwyddiadau. <i>(Rhan o MF5-1- Felodrom Caerfyrddin)(Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 8)</i>	Mawrth 2023
<b>4</b>	Byddwn yn datblygu llwybrau teithio llesol ar gyfer aneddiadau allweddol	Mawrth 2020
<b>5</b>	Byddwn yn diweddarau'r <b>Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd</b> i ddarparu strategaeth ar gyfer rheoli a chynnal seilwaith priffyrdd y sir.	Mawrth 2019
<b>6</b>	Byddwn yn datblygu, cynnal a darparu rhaglen gyfalaf cynnal a chadw 3 blynedd ar gyfer <b>Cynnal a Chadw Priffyrdd</b> ar sail blaenoriaeth i sicrhau bod y defnydd mwyaf effeithiol yn cael ei wneud o'r arian cyfyngedig sydd ar gael. <i>MF5-8</i>	Mawrth 2019
<b>7</b>	Byddwn yn datblygu, cynnal a darparu rhaglen dreigl gyfalaf cynnal a chadw <u>3 blynedd</u> ar gyfer cynlluniau i <b>gryfhau pontydd a'u hadnewyddu</b> . Blaenoriaethu cyflawni'r cynlluniau o fewn yr adnoddau sydd ar gael	Mawrth 2019
<b>8</b>	Byddwn yn gweithio tuag at wella integreiddiad y rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus gan gynnwys gwasanaethau rheilffyrdd yn Sir Gaerfyrddin, er mwyn diwallu anghenion ein trigolion yn well. <i>MF5-6</i>	Mawrth 2021
<b>9</b>	Byddwn yn gwella'r seilwaith ar gyfer y defnydd o gerbydau trydan, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. <i>MF5-6</i>	Mawrth 2021
<b>10</b>	Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu seilwaith priffyrdd y Sir er mwyn gwella ansawdd yr aer, yn enwedig yn Llandeilo. <i>MF5-4</i>	Mawrth 2021
<b>11</b>	Byddwn yn ystyried dichonoldeb datblygu llefydd i loriau barcio dros nos yn y sir. <i>MF5-9</i>	Mawrth 2019
<b>12</b>	Byddwn yn parhau i gyflwyno prosiect <b>Buddsoddi i Arbed LED</b> ar draws seilwaith goleuadau stryd y sir.	Mawrth 2019
<b>13</b>	% y ffyrdd dosbarth A sydd mewn cyflwr gwael ( <i>PAM/020</i> ) ( <i>Canlyniad 2017/18 -4.1%</i> )	4.1%
<b>14</b>	% y ffyrdd dosbarth B sydd mewn cyflwr gwael ( <i>PAM/021</i> ) ( <i>Canlyniad 2017/18 – 3.1%</i> )	4.1%
<b>15</b>	% y ffyrdd dosbarth C sydd mewn cyflwr gwael ( <i>PAM/022</i> ) ( <i>Canlyniad 2017/18 – 11.9%</i> )	13%

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Dyddiad/ Targed
16	Byddwn yn lleihau i'r graddau mwyaf posibl ganran y prif ffyrdd (A), ffyrdd heblaw prif ffyrdd (B) a ffyrdd heblaw prif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol (THS/012) (Canlyniad 2017/18 – 9.3%)	10.2%
<b>B</b>	<b>Byddwn yn parhau â'r rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus integredig llwyddiannus</b>	
1	Byddwn yn gweithio gyda Phartneriaid Awdurdod Lleol Rhanbarthol i ddatblygu cynlluniau ar gyfer Metro i Dde a Gorllewin Cymru.	Mawrth 2019
2	Byddwn yn anelu at sicrhau bod gan o leiaf 75% o oedolion 60+ gerdyn teithio rhatach(THS/007) (Canlyniad 2017/18 – 80.6%)	75%
<b>C</b>	<b>Ein bwriad fydd ailddylunio ein rhwydwaith cludiant ysgol er mwyn cefnogi'r Rhaglen Moderneiddio Addysg</b>	
1	Byddwn yn parhau i gefnogi darparu'r Rhaglen Moderneiddio Addysg - ailgynllunio rhwydweithiau er mwyn hwyluso symudiad disgyblion fel y nodir yn ein polisi cludiant o'r cartref i'r ysgol.	Mawrth 2019
<b>D</b>	<b>Byddwn yn parhau i gefnogi trafndiaeth gymunedol.</b>	
1	Byddwn yn gweithio gyda'r gymuned a Chyngorau Sir Ceredigion a Phenfro a Llywodraeth Cymru i helpu i gynnal gwasanaethau trafndiaeth integredig Bwcabus/LINC a gwasanaethau strategol allweddol. (Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 11)	Mawrth 2019
<b>E</b>	<b>Byddwn yn cyflawni ein hamcanion a bennwyd yn ein Strategaeth Diogelwch Ffyrdd.</b>	
1	Byddwn yn llobio Llywodraeth Cymru i gynyddu'r cyllid er mwyn gallu datblygu Llwybrau Diogel mewn Cymunedau gan sicrhau bod mwy o gymunedau'n gallu cael palmentydd a llwybrau cerdded newydd. <b>MF5-7</b>	Mawrth 2019
2	Byddwn yn ennill y grym i orfodi troseddau sy'n ymwneud â thraffig sy'n symud drwy geisio cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru.	Mawrth 2019
3	Byddwn yn gweithio i ostwng nifer y bobl sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar y ffyrdd er mwyn cyrraedd y gostyngiad o 40% erbyn 2020 (5.5.2.21) (Canlyniadau 2017/18 <b>I'w gadarnhau</b> )	81
4	Byddwn yn lleihau nifer y gyrwyr beiciau modur sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar y ffyrdd er mwyn cyrraedd y gostyngiad o 25% erbyn 2020 (5.5.2.22) (Canlyniad 2017/18 <b>I'w gadarnhau</b> )	15
5	Byddwn yn gweithio i ostwng nifer y bobl ifanc (rhwng 16-24 oed) sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar y ffyrdd er mwyn cyrraedd y gostyngiad o 40% erbyn 2020 (5.5.2.23) (Canlyniad 2017/18 – <b>I'w gadarnhau</b> )	23
<b>F</b>	<b>Moderneiddio ein fflyd cerbydau</b>	
1	Byddwn yn cwblhau ein buddsoddiad mewn cerbydau newydd yn ystod y flwyddyn, yn unol â'n rhaglen adnewyddu'r fflyd strategol. <b>MF5-5</b>	Mawrth 2019

### Mesurau Llwyddiant

**Cyflwr y ffyrdd** (PAM/020, PAM/021 a PAM/022)

**Nifer a laddwyd/anafwyd mewn damweiniau ar y ffyrdd** (5.5.2.21)